Cyfranogaeth Cymru

# Cymryd Rhan.

## 10 ffordd i fudiadau eich helpu i gymryd rhan.

Mae'r ddogfen Hawdd ei Deall yma yn rhoi gwybod i chi beth ddylai mudiadau ei wneud pan maen nhw'n gofyn i chi beth rydych yn ei feddwl o wasanaethau a sut y dylen nhw gael eu rhedeg.

Hydref 2011

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mae Cyfranogaeth Cymru yn fudiad sy'n gweithio i wneud yn siwr eich bod yn rhan o drafodaethau am sut y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu.

Mae cyfranogaeth yn golygu cymryd rhan a chael eich cynnwys mewn penderfyniadau.

Mae Cyfranogaeth Cymru wedi ysgrifennu dogfen o'r enw "Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru".

Dyma fersiwn Hawdd ei Deall o'r ddogfen.

Gair arall am gymryd rhan yw ymgysylltu.

Mae'r ddogfen yma yn dweud wrth fudiadau beth ddylen nhw ei wneud pan maen nhw'n gofyn i bobl gymryd rhan yn y pethau canlynol:

- Cynllunio ar gyfer gwasanaethau
- Sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu
- Pryd mae gwasanaethau yn cael eu darparu
- Pwy fydd yn darparu'r gwasanaeth

Gwasanaethau yw pethau fel:

- Eich meddygfa
- Eich canolfan chwaraeon leol
- Trafnidiaeth gymunedol
- Tai gyda chymorth



Mae'r ddogfen yn rhestr 10 peth y mae Cyfranogaeth Cymru yn meddwl sy'n bwysig iawn i fudiadau eu gwneud pan maen nhw'n ceisio helpu pobl i gymryd rhan.

# 1. A fydd hyn yn gwneud gwahaniaeth?

Ni ddylid gofyn i chi beth rydych yn ei feddwl dim ond os yw'r mudiad:

- Yn gwrando ar beth rydych yn ei ddweud
- Yn gallu newid pethau sydd angen eu newid
- Yn gallu cadw pethau yr un fath os oes angen

# 2. Gofyn i'r bobl gywir

Dylid gofyn i'r bobl gywir gymryd rhan.

Gall y rhain fod:

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaeth nawr
- Pobl a fydd efallai'n defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol
- Rhieni neu ofalwyr rhywun sy'n defnyddio gwasanaeth

# 3. Rhoi cyfle i bawb

Dylid rhoi digon o amser i chi gymryd rhan.

Dylid eich helpu i gymryd rhan yn y ffordd rydych chi eisiau.

Mae hyn yn golygu y byddan nhw efallai'n trefnu cyfarfod hwyl y gall plant bach ei ddeall a'i fwynhau ac yna'n trefnu cyfarfod gwahanol i oedolion.

# 4. Gweithio gyda mudiadau eraill

Weithiau mae mudiadau gwahanol eisiau cael gwybod yr un pethau a chael yr un bobl i gymryd rhan.

Dylen nhw siarad â'i gilydd a gweld a allen nhw weithio gyda'i gilydd i arbed amser ac arian.

# 5. Siarad ac ysgrifennu yn glir

Dylid rhoi gwybodaeth mewn ffordd rydych yn gallu ei deall.

Ni ddylen nhw ddefnyddio geiriau nac iaith anodd.




Os oes angen, dylai mudiadau roi gwybodaeth Hawdd ei Deall, ar sain (CD) neu fideo (DVD) neu mewn print mawr.

Dylid rhoi gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill os oes angen.

# 6. Ei gwneud yn hawdd i bobl

Dylai mudiadau feddwl am bethau a all ei gwneud yn anodd i bobl gymryd rhan a dylen nhw ddod o hyd i ffyrdd o'i gwneud yn haws.

Mae hyn yn golygu y dylai mudiadau wneud pethau fel:

- Trefnu cyfarfodydd mewn ystafelloedd sy'n hawdd i bobl anabl fynd mewn iddynt a'u defnyddio
- Gwneud yn siwr eu bod yn trefnu digwyddiadau mewn llefydd y gallwch eu cyrraedd ar y bws neu'r trên
- Gwneud yn siwr y gall pobl fyddar gymryd rhan drwy ddefnyddio iaith arwyddion neu isdeitlau

# 7. Helpu pobl i ddysgu a datblygu

Mae datblygu yn golygu dysgu a gallu gwneud mwy o bethau.

Gallai mudiadau helpu pobl i ddysgu:

- Sut mae eu mudiad yn gweithio
- Sut i fod yn fwy hyderus i ddweud beth maen nhw'n ei feddwl
- Sut i gymryd rhan yn eu cymuned
- Sut i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth

# 8. Amser ac Arian

Dylai mudiadau wneud yn siwr bod ganddyn nhw ddigon o arian ac amser.

Mae angen iddyn nhw fod â digon o amser i gynnal cyfarfodydd, siarad â phobl a deall beth rydych wedi dweud wrthyn nhw.

Efallai y bydd angen iddyn nhw wario arian ar logi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd, prynu cinio i bobl neu dalu am drafnidiaeth pobl.

# 9. Dweud wrthych beth sydd wedi digwydd ar ôl i chi gymryd rhan




Ar ôl i fudiad wrando ar yr hyn rydych wedi'i ddweud fe ddylen nhw roi gwybod i chi beth maen nhw am ei wneud.

Mae yna lawer o bethau y dylai mudiad ei wneud ar ôl i bobl gymryd rhan. Dylen nhw wneud y canlynol:

- dweud wrthych am benderfyniadau maen nhw'n meddwl y byddwch yn cytuno â nhw
- dweud wrthych am benderfyniadau maen nhw'n meddwl y byddwch efallai yn anghytuno â nhw
- dweud wrthych os ydyn nhw yn newid gwasanaeth achos yr hyn a ddywedoch chi
- dweud wrthych pam nad ydyn nhw yn gallu gwneud yr hyn y gwnaethoch ofyn amdano

# 10. Ei wneud yn well y tro nesaf

Pan mae mudiad wedi gofyn i bobl gymryd rhan fe ddylen nhw feddwl am sut y gallan nhw ei wneud yn well y tro nesaf.

Mae hyn yn golygu y dylai mudiadau wneud y canlynol:

- gofyn i chi pa mor hawdd oedd hi i chi gymryd rhan
- gweld a wnaeth y bobl gywir gymryd rhan
- meddwl a wnaethon nhw gael gwybod beth oedd angen iddyn nhw ei wybod

Y tro nesaf y bydd y mudiad yn gofyn i bobl gymryd rhan fe ddylen nhw ei wneud yn well.

# Sut i gysylltu â Cyfranogaeth Cymru

029 2043 6596

participationcymru@wcva.org.uk

Cyfranogaeth Cymru
WCVA
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH

www.participationcymru.org.uk

Ysgrifennwyd y geiriau Hawdd eu Deall hyn gan Anabledd Dysgu Cymru.

www.learnlingdisabilitywales.org.uk

Daw'r lluniau o PhotoSymbols4

Anabledd Dysgu Cymru – Hydref 2011